Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 03-03-20 – 7.30pm**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase, Geraint Owen, Gwenan Roberts, Gwilym Williams, Arthur Williams, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod a 10 o breswylwyr o Heol Ffynnon Asa.

Roedd gan y preswylwyr bryderon ynghylch yr afon a'r llifogydd diweddar. Pwyntiau a drafodwyd:

- Gwasgbwynt wrth y bont a'r gatiau;
- Gatiau ddim yn cael eu cynnal a gatiau yn yr afon sy'n llesteirio llif. Mae gwneuthuriad y giatiau yn wael;
- A allai'r Cyngor Cymuned gael rhywun i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i leddfu'r broblem;
- Awgrym o geuffos ar y corneli;
- Ar y clawdd gyferbyn (Dei Plas) – ffensys yn y dŵr. Pa gymorth neu awgrymiadau a geir;
- Dangoswyd fideo o ddifrod y llifogydd a llif yr afon;
- Cyfrifoldeb y ffermwr sy'n denant neu ystâd Bodnant.

Dywedodd Cynghorydd Austin fod cyfraith newydd ar waith ar gyfer holl nentydd, afonydd ac ati sy'n llifo'n rhydd. Dywedodd Cynghorydd Austin y byddai'n gofyn i James Feest gael golwg a gweld a oes tramgwydd. Os oes, gall gysylltu â'r tirfeddiannwr. Y Cynghorydd Austin i ofyn i Bryn Shiland am y pibellau.

Darllenodd y Cynghorydd Austin e-bost gan Bryn Shiland:

Mewn ymateb i'ch cwestiynau isod:

1. Gosodwyd y giât stoc fel rhan o gytundeb gyda Fferm Henblas er mwyn adeiladu'r bont droed yn ystod 2015. Henblas sy'n berchen ar y giât ar ôl adeiladu pont droed Bryn Hir.

2. Cynigiwyd y cynllun lliniaru llifogydd gwreiddiol yn 2012. Fodd bynnag, ni symudwyd ymlaen â'r cynllun gan gafwyd un gwrthwynebiad i gefnogi'r cynllun. Gall CBSC archwilio'r posibilrwydd o atgyfodi'r cynllun hwn gyda LlC yn ystod y cyfle nesaf i gadarnhau unrhyw ddiwygiad i'r flaenraglen waith arfaethedig. A yw hyn yn rhywbeth yr hoffech i CBSC ei archwilio?

3. Byddwn yn edrych ar atebion codi posibl ar gyfer y gât ond perchennog y giât fydd yn gyfrifol am wneud hynny.

Mae croeso i chi gysylltu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Mae Cynghorydd Austin wedi cysylltu â Mr Williams ac wedi gofyn ynghylch y giatiau. Mae'n fodlon edrych ar gynllun ar gyfer y giatiau. Os yw'n troi hyn i lawr bydd y Cynghorydd Austin yn gofyn i CBSC am system amddiffyn rhag llifogydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Cynghorydd Austin am ei gymorth a'i gefnogaeth yn ystod y llifogydd a'i gysylltiad â swyddogion CBSC er mwyn cadw Ffordd Ty Gwyn ar agor.

Y Cynghorydd Austin i ymchwilio i'r mater ymhellach.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Dim.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

Cynghorwyr Wendy, Arthur a John – Sioe Eglwysbach;
Cynghorydd Gwilym – Ysgol Eglwys Bach.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/02/20).

Cynigwyd cofnodion 04/02/20 yn gywir gan Cyng Geraint ac eiliwyd gan Cyng Phyllis.

Newid i’r Cofnodion – clawdd Geraint Wern nid y fynwent.

5. **MATERION YN CODI**

- **Mandad Banc:**
  Cynghorydd Gwenan wedi cael ei thrwydded gyrru newydd ond cyfeiriad yn anghywir eto felly methu mynd i’r banc.

- **Pibell Bryn Hir –** wedi ei wneud.

- **Coed ger Cilgeran:**
  Y Clerc wedi gyrru llythyr at at y preswylwyr (Mr a Mrs Quick) – disgwyl ymateb.

- **Coed yn y Fynwent Cyhoeddus:**
  Y gwaith wedi ei wneud gan Keith Webber.

- **Clawdd y fynwent:**
  Wil Williams heb dorri y clawdd eto.

- **Llwybr Bws X19:**

  Wedi derbyn ymateb gan Gwmni Llew Jones:

Rydym yn gwneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf i gyd-fynd â chyflwyniad y IRT gan CBS Conwy ac mae ymestyn y X19 i Eglwysbach yn un opsiwn o dan ystyriaeth.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth inni wneud penderfyniadau ar hyn yn y dyfodol, gan nad yw byth yn hawdd gwneud newidiadau i wasanaeth bysiau.

- **Tendr Torri Glaswellt 2020-2022:**

  Dau 2 dendr wedi eu derbyn. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd Cyng Austin dderbyn y pris isaf. Cyng John yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno. Y Clerc i ymateb i'r ddau ymgeisydd.

  Is-bwyllgor gwyrdd wedi cyfarfod a byddai'n hoffi un neu ddau o rannau o'r pentref mewn cyflwr mwy naturiol. Cynghorydd Ceri wedi cyfarfod â Phennaeth Garddio Bodnant, sy'n barod i ddarparu cymorth, hadau ac ati. Roedd y cynghorwyr yn hapus. Cyng Ceri i drafod gyda Wil.

- **Cymdeithas Amaethyddol a Garddwriaethol Eglwys Bach a'r Cylch – Cyfraniad:**

  Cyng Geraint yn cynnig £1,000 ac Cyng Austin yn eilio'r cynnig. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.
  Cyng Wendy, John ac Arthur ddim wedi cymryd rhan yn y drafodaeth.

- **Llwybyr Chwarael y Nant:**

  Cyng Austin yn cael cymorth adran gyfrethiol CBSC i lenwi'r ffurflen i mewn ar yr 11eg o Fawrth.

- **Adroddiad y Pwyllgor Gwyrdd (Ceri, Wendy a Gwilym):**

  Adroddodd Cynghorydd Ceri:

- cyfarfu'r Pwyllgor ar 25/02/20. Ar hyn o bryd, mae gan y pwyllgor nifer o aelodau a thudalen Facebook – greeneglwysbachgwyrdd;
- mae'r pwyllgor wedi cysylltu â CBSC (Philip Vipond) ynghylch torri llwybrau mewn mannau gwyrdd, a gadael blodau gwyllt. Ond ni ellir gwneud dim nes lleddfu'r 'lockdown';
- Mae'r Pwyllgor wedi cysylltu â'r ysgol hefyd, ond eto, ni all dim ddigwydd nes bod y 'lockdown' yn lleddfu.

6. **CYNLLUNIO**

- 0/47116 - Mr Daniel Jones
  Cynllun: Darparu canopi ôl-dynadwy 4m x 2m uwchben ffenestr y ciosg hufen iâ ar ddrychiad de-ddwyrain adeilad y Pafiliwn.
  Safle: Bodnant Pavilion Tearoom, Bodnant Road, Eglwysbach, Conwy LL28 5RE

Dim gwrthwynebiad.

- 0/47065 – Ystâd Bodnant Estate
  Cynllun: Bwriad i addasu a newid defnydd adeilad amaethyddol presennol i ddefnydd swyddfa/masnachol/diwydiannol cyffredinol (B1/B2 a B8).
  Safle: Bont Newydd Barn, Ffordd Ty Gwyn, Eglwysbach, Conwy LL28 5RN

- 0/47066 – Ystâd Bodnant Estate
  Cynllun: Bwriad i addasu a newid defnydd adeilad amaethyddol presennol i ddefnydd swyddfa/masnachol/diwydiannol cyffredinol (B1/B2 a B8) (Cydsyniad Adeilad Rhestredig).
  Safle: Bont Newydd Barn, Ffordd Ty Gwyn, Eglwysbach, Conwy LL28 5RN

  Roedd cynghorwyr o'r farn nad oeddent am i ethos yr adeilad gael ei ddifetha ac y gallai'r cynllun fod yn fwy sensitif i'r amgylchoedd. Er eu bod yn croesawu'r ffaith y byddai'r adeilad yn cael ei gadw, roeddent o'r farn bod y safle'n cael ei ddatblygu ormod. Y Cynghorydd Ceri i ysgrifennu datganiad pellach i'w anfon at adran gynllunio CBSC.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £6,263.18
Angladdau - £839.20
Cadw - £2,076.05

**Sieciau:**
**Cyfredol:**
- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Delyth Wynne (Stampiau) - £9.00
- Delyth Wynne (Offer Swyddfa) - £7.53
- Un Llais Cymru (Aelodaeth) - £143.00
- Cymdeithas Amaethyddol a Garddwriaethol Eglwys Bach a’r Cylch - £1,000
- CFFI Rowen (Cyfraniad) - £50.00
- Ysgol Eglwys Bach (Cyfraniad) - £200.00
- J R Dowell (Hugh Spencer & Co) (Hysbysfwrdd) - £135.00

- **Angladdau:**
  Dim.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CFFI Rowen – cymorth ariannol**:

  Cyng John yn cynnig £50.00. Cyng Gwenan yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **E-Bost: Ysgol Eglwys Bach – cymorth ariannol:**

Cyng Arthur y cynnig £200.  Cyng Austin yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Llythyr: CBSC – Darparu gwsanaethau:**

  Ffurflen wedi ei lenwi.

- **E-bost: CBSC – Dileu caban ffon cyhoeddus/cyfnod ymgynghori 90 diwrnod:**

  Llythyr wedi ei dderbyn gan BT yn ymwneud â'r broses ymgynghori ffurfiol o ran eu bwriad presennol i gael gwared â ffonau talu cyhoeddus â rhestr o'r ffonau talu y cynigwyd cael gwared ohonynt ynghyd â ffigyrau defnydd dros y 12 mis diwethaf.   Un o'r ffonau talu cyhoeddus yn Tal-y-Cafn.

  Penderfynwyd ymateb yn ôl i'r ymgynghoriad yn nodi bod Tal-y-Cafn:

- ar yr A470;
- yn fan drwg am ddamwain;
- yn ardal heb signal ffôn symudol.

- **Llythyr: Swyddfa'r Urdd Conwy – llythyr o ddiolch:**

  Nodwyd er gwybodaeth.

- **Llythyr/E-Bost: Theatr Bara Caws – llythyr o ddiolch:**

  Nodwyd er gwybodaeth.

- **Anfoneb/Ffurflen Aelodaeth: Un Llais Cymru:**

  Infois i'w dalu.

- **Gwahoddiad: Ymgyrch Diogelu Cymru Weldig – Gwobr Pentrefi Conwy 2020:**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol - Datganiad o'r taliadau ar gyfer 2018/2019:**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Swyddfa Archwilio Cymru - Ymgynghoriad ar Trefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru:**

  Y Cadeirydd i ymateb.

- **E-Bost: CBSC - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

  Noder er gwybodaeth.

- **Eisteddfod GerddorolRyngwladol Llangollen – cymorth ariannol:**

  Penderfynwyd peidio a roi cymorth ariannol.

- **E-Bost: Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy – e-bost o ddiolch:**

  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Ffordd Cae Forys – ffos dyfn wrth Capel Bryndaionyn;
- Hysbysfwrdd wedi ei orffen. Y gost ydy £135.00;
- Yr Hen Efail – darn o'r ffordd wedi disgyn. Heibio Berllan Bach wrth Llan Farm (rheiliau);
- Ffordd Ty Gwyn – ffoes dyfn;
- Ffordd Erw Goch am groesffordd Bodnant – tarmac wedi codi;
- Goleuadau ddim yn gweithio yn Caertrefle a tro Henblas;
- Pris baner newydd ydy £75.00 – y Cynghorwyr yn cytuno i archebu un newydd. Cyng Ceri i archebu un;
- Cae Chwarae wedi ei ffensio i ffwrdd oherwydd difrod llifogydd. Wedi ei glirio. Angen llnau yr offer chwarae ayyb cyn ail agor;
- Ffens newydd wrth yr ysgol.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

07/04/20
05/05/20
02/06/20
07/07/20
01/09/20
06/10/20
03/11/20
01/12/20

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.15 o'r gloch.